# Caerwent Gardens,<br>Dinas Powys, CF64<br>Polisi Gosod a<br>Gwerthu Tai'n Lleol

Nod y polisi Gosod a Gwerthu Tai'n Lleol yw sicrhau bod datblygiad newydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru yn Caerwent Gardens, Dinas Powys, yn gynaliadwy ac y daw yn rhan o'r gymuned leol. Bwriad y polisi yw sicrhau bod preswylwyr newydd yn dymuno aros yn yr ardal a dangos ymrwymiad i'r ardal y byddan nhw'n byw ynddi. Er mwyn cyflawni'r nod, cafodd y polisi gosodiadau a gwerthiannau lleol ei ddatblygu a'i gytuno mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, Cymdeithas Tai Unedig Cymru a Chyngor Cymuned Dinas Powys sy'n cynrychioli trigolion Dinas Powys.

Dylai'r rhai sy'n gwneud ceisiadau i Osod a Gwerthu fodloni prif egwyddorion y polisi a chael eu blaenoriaethu yn unol â'r meini prawf canlynol:

1) Yn byw neu'n gweithio ar hyn o bryd yn ardal Cyngor Cymuned Dinas Powys ac wedi byw yn ardal Cyngor Cymuned Dinas Powys ers 5 mlynedd neu fwy **NEU** ag aelod agos o'r teulu sy'n byw ar hyn o bryd (ac wedi byw yn yr ardal ers 5 mlynedd neu fwy) yn ardal Cyngor Cymuned Dinas Powys; *gan gynnwys ac yn gyfyngedig i rieni, mam-gu a thad-cu, plant, wyrion, brodyr neu chwiorydd.*

2) Yn byw, yn gweithio neu â theulu agos (fel y diffinnir uchod) sy'n byw yn ardal Cyngor Cymuned Dinas Powys ar hyn o bryd ac ers llai na 5 mlynedd.

3) Yn byw mewn ardaloedd cyngor cymuned gwledig cymdogol ar hyn o bryd; sef ardal Cyngor Cymuned Llandochau, ardal Cyngor Cymuned Sili neu ardal Cyngor Cymuned Gwenfô ac wedi byw yn yr ardaloedd hyn ers 5 mlynedd.

4) Os na fydd digon o ymgeiswyr sy'n bodloni Blaenoriaethau 1 - 3 yna rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw yn ardaloedd Cyngor Tref y Barri a Phenarth ar hyn o bryd.

Rhoddir mwy o flaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n bodloni Blaenoriaeth (4) ac sydd hefyd â chysylltiad lleol ag ardal Cyngor Cymuned Dinas Powys – h.y. cysylltiadau teuluol ehangach, cysylltiadau cymunedol ac ati.

5) Os oes angen, gellir wedyn cynnig gosodiadau i'r ymgeiswyr hynny sy'n byw yn rhywle arall ym Mro Morgannwg.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

O fewn pob un o'r lefelau blaenoriaeth hyn - caiff eiddo rhent eu dyrannu yn unol â pholisi presennol Homes4U, yn ôl blaenoriaeth bandiau ac yn ôl hyd y cyfnod y'u cofrestrwyd gyda Homes4U.

Caiff perchentyaeth cost isel ei enwebu yn nhrefn hyd y cyfnod ar Aspire2Own.

Wrth osod eiddo yn Caerwent Gardens, Dinas Powys, byddwn yn paru maint y llety gydag anghenion yr aelwyd, yn unol â'r polisïau dyrannu presennol. Ni fydd y gofyniad hwn yn berthnasol yn achos ceisiadau am eiddo Perchentyaeth Cost Isel.

Nid oes unrhyw beth yn y ddogfen hon sy'n atal ceisiadau newydd i Homes4U neu Aspire2Own.
Mae'r Polisi Gosod a Gwerthu'n Lleol yn cyd-fynd â'r meini prawf cymhwyster ar gyfer eiddo Perchentyaeth Cost Isel.

**Rheoli Tai ar gyfer Gosodiadau Newydd**
I bob ymgeisydd sydd â thŷ yn Caerwent Gardens, bydd Swyddogion Cymdeithas Tai Unedig Cymru yn:

- Cynnal asesiad ffôn a phrawf fforddio gyda phob ymgeisydd.
- Mynd ar ôl geirdaon ar gyfer tenantiaethau.

Bydd Cymdeithas Tai Unedig Cymru yn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu cofrestru gyda Homes4U.
Bydd pob cynnig tenantiaeth yn amodol ar dalu un wythnos o rent ymlaen llaw. Os nad yw hyn yn fforddiadwy gellir gofyn i'r ymgeisydd ymrwymo i gytundeb i dalu swm cychwynnol bychan wedi'i ddilyn gan daliadau wythnosol rheolaidd o swm a gytunwyd tan fod balans rhent yr wythnos gyntaf wedi'i dalu'n llawn.